LANEq105

Gosod a thynnu carthenni ceffylau, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gosod a thynnu carthenni ceffylau o dan oruchwyliaeth. Mae'n cynnwys carthenni o fathau gwahanol, yn cynnwys carthenni stabl a throi allan gyda strapiau i'r coesau. Mae hefyd yn cynnwys nodi problemau sylfaenol yn ymwneud â charthenni ceffylau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn unol â chyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy roi cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi ac i eraill
3. clymu a rhyddhau'r ceffyl yn ddiogel
4. gosod carthenni ceffylau o dan oruchwyliaeth
5. tynnu, plygu a storio carthenni ceffylau, o dan oruchwyliaeth
6. hysbysu'r goruchwylydd ynghylch unrhyw broblemau gyda'r carthenni
7. addasu'r carthenni yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen arnynt a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. sut i ymdrin â cheffylau, eu clymu a'u rhyddhau yn ddiogel
4. y peryglon posibl i geffylau pan fyddant yn gwisgo carthenni stabl a throi allan gyda strapiau coesau/llinynnau rhimyn
5. y rhesymau dros sicrhau bod y carthenni wedi eu gosod yn gywir
6. y weithdrefn i'w dilyn os yw'r carthenni'n llithro
7. sut i osod a thynnu carthenni ceffylau
8. sut i adnabod carthenni sydd mewn cyflwr da ac mewn cyflwr gwael
9. sut i blygu a storio carthenni
10. y mathau o anawsterau a all ddigwydd
11. y rhagofalon diogelwch i'w cymryd wrth osod a thynnu carthenni ceffylau
12. eich cyfrifoldebau yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid.

## Cwmpas/Ystod

Gosod a thynnu'r carthenni ceffylau canlynol:

- carthen waelod (os caiff ei defnyddio)
- carthenni uchaf
- carthenni stabl a throi allan gyda strapiau coesau/llinynnau rhimyn

## Geirfa

Gallai problemau gyda charthenni ceffylau gynnwys:

- niwed i'r garthen
- anhawster yn gosod a thynnu'r garthen
- problemau yn gosod y garthen wrth ei gwisgo

# Gosod a thynnu carthenni ceffylau, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq105 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; carthenni |